Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru
# Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

Papur Ymgynghori Rhif 251 (Crynodeb)
Rhagfyr 2020

## YMATEB I'R PAPUR HWN

Crynodeb ydy hwn o'n Papur Ymgynghori llawn, sydd ar gael ar ein gwefan yn https://www.lawcom.gov.uk/tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru/

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i ddarparu ein cyhoeddiadau mewn ffurf hygyrch. Fe fydd fersiwn hawdd ei ddeall ar gael ar ein gwefan yn fuan. Os yr ydych am gael y papur hwn mewn fformat arall, e-bostiwch DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk os gwelwch yn dda.

**Hyd yr ymgynghoriad:** Byddwn yn croesawu ymatebion rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 19 Mawrth 2020.

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad trwy ddefnyddio ffurflen, sydd ar gael i'w lawrlwytho yn <https://www.lawcom.gov.uk/project/devolved-tribunals-in-wales/>. Lle bo'n bosib gwneud hynny, mi fyddwn yn ddiolchgar pe byddech yn defnyddio'r ffurflen yma. Dylid dychwelyd y ffurflen trwy ei yrru at DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk

Fel arall, gellir gyrru unrhyw sylwadau:
Trwy e-bost at DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk
NEU
Trwy'r post at Devolved Tribunals in Wales Team, Law Commission, 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Os ydych am yrru eich sylwadau trwy'r post, carem pe byddech yn gallu eu gyrru, os yn bosib, ar e-bost hefyd.

**Cyhoeddi ymatebion**

Efallai y byddwn yn cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei ddarparu mewn ymateb i'n papurau. Yn ogystal â hynny, efallai bydd dyletswydd arnom i ddatgelu gwybodaeth, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os y dymunwch i ni ymdrin â'r wybodaeth yr ydych yn bwriadu ei ddarpau yn gyfrinachol, neu os ydych am aros yn ddienw, yna cysylltwych o flaen llaw i fynegi hynny. Ni allwn warantu bod modd cadw'r cyfrinachedd hwn ym mhob achos.

Fe fydd Comisiwn y Gyfraith yn prosesu eich data personol yn unol â'r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol.

Am wybodaeth bellach am sut rydym yn ymdrin â data, dilynwch y ddolen i'n gwefan - https://www.lawcom.gov.uk/ymdrin-a-data-personol/

# Cynnwys


| | tudalen |
|---|---|
| Pennod 1: Cyflwyniad | 1 |
| Cefndir y prosiect | 1 |
| Ein cylch gorchwyl | 1 |
| Cwestiynau a chroesgyfeiriadau at y papur ymgynghori llawn | 2 |
| Y camau nesaf | 2 |
| Pennod 2: Tribiwnlysoedd yng Nghymru: cymhwysedd datganoledig a thribiwnlysoedd datganoledig | 2 |
| Y fframwaith datganoledig | 2 |
| Beth yw tribiwnlys datganoledig? | 3 |
| Pennod 3: System dribiwnlysoedd i Gymru | 4 |
| Manteision ac anfanteision cyfuno | 4 |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | 5 |
| Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion | 5 |
| Ad-drefnu posib ar awdurdodaethau o fewn tribiwnlys unedig | 6 |
| Pennod 4: Apeliadau | 8 |
| Yr Uwch Dribiwnlys | 8 |
| Apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig | 8 |
| Opsiynau ar gyfer diwygio | 8 |
| Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion | 11 |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | 12 |
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru | 12 |
| Pennod 5: Rheolau Gweithdrefnol | 12 |
| Sut y gwneir rheolau gweithdrefnol? | 12 |
| Problemau cyffredin ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig | 13 |
| Gwrandawiadau o bell | 14 |
| Safoni rheolau gweithdrefnol eraill y tribiwnlysoedd | 14 |
| Cyfuno i wneud un set o reolau | 15 |
| Gwneud a chynnal y rheolau gweithdrefnol | 15 |
| Pennod 6: Penodiadau | 15 |
| Penodiadau o fewn y tribiwnlysoedd Cymreig datganoledig | 15 |
| Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol | 15 |
| Diwygio penodiadau yng Nghymru | 16 |
| Pennod 7: Cwynion a disgyblaeth | 18 |
| Pwerau cwynion a disgyblu yn system dribiwnlysoedd y DU | 19 |
| Prosesau cwynion o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru | 19 |
| Proses disgyblu | 20 |
| Pwerau disgyblu | 21 |
| Pennod 8: Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru | 22 |
| Cyfrifoldebau presennol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru | 22 |
| Diwygiadau posib | 22 |

Pennod 9: Uned Tribiwnlysoedd Cymru 23
Model yr asiantaeth weithredol: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon 23
Model yr adran anweinidogol: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban 24
Diwygio Uned Tribiwnlysoedd Cymru 24

Pennod 10: Annibyniaeth farnwrol 24
Sicrhau annibyniaeth drwy statud 25
Y llw barnwrol 25

## PENNOD 1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn cynnal adolygiad o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Mae hwn yn grynodeb o’r Papur Ymgynghori yn yr adolygiad hwnnw.[1] Rydym yn gofyn am ymatebion erbyn **19 Mawrth 2021** gan yr holl bartïon sydd â diddordeb. Mae manylion am ffyrdd i ymateb y tu mewn i’r clawr.

### Cefndir y prosiect

1.2 Mae’r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru wedi datblygu ar hap. Sefydlwyd y rhan fwyaf ohonynt cyn datganoli, ac mewn ymateb i’r anghenion polisi a oedd gan wahanol adrannau llywodraeth. Am eu bod wedi cael eu datganoli, nid oeddent wedi’u cynnwys yn y rhesymoli cyffredinol ar dribiwnlysoedd a gafwyd o ganlyniad i basio Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Yn hytrach, fe’u rheolir yn bennaf o hyd gan y ddeddfwriaeth wreiddiol ar eu cyfer. Mae prosesau a gweithdrefnau’n amrywio rhwng y naill dribiwnlys a’r llall, a cheir bylchau ac anghysonderau. Nid yw datblygiadau diweddarach, fel creu swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn 2017, wedi cael eu hadlewyrchu’n briodol.

1.3 Mae swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi helpu i uno’r tribiwnlysoedd, drwy ddarparu canolbwynt i rai ohonynt, a ffigwr barnwrol uwch i gyfleu eu buddiannau. Sicrhawyd mwy o gysondeb hefyd drwy ganoli gweinyddiaeth rhai o’r tribiwnlysoedd yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru sy’n rhan o Lywodraeth Cymru. Ond nid yw pob un o’r tribiwnlysoedd wedi’u cynnwys yn y trefniadau hyn. Ac mae’r ddeddfwriaeth sy’n sail i’r tribiwnlysoedd yn ddigyswllt o hyd. Mae’n anodd dweud bod y tribiwnlysoedd presennol yn rhan o “system”.

### Ein cylch gorchwyl

1.4 Gofynnwyd i ni ystyried materion yn ymwneud â Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru, sydd â’r bwriad o reoleiddio gweithrediadau system sengl o dribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae’r adolygiad yn cynnwys materion fel:

(1) cwmpas system dribiwnlysoedd i Gymru;

(2) rolau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru;

(3) penodi a disgyblu barnwyr tribiwnlysoedd ac aelodau eraill;

(4) penodi Llywyddion a Dirprwyon;

(5) y pŵer i wneud a safoni rheolau gweithdrefnol;

(6) prosesau apeliadau;

(7) prosesau cwynion; ac

(8) gwarchod annibyniaeth farnwrol.

---

[1] Mae’r papur ymgynghori llawn ar gael yma: https://www.lawcom.gov.uk/project/devolved-tribunals-in-wales/

1.5 Ein dull o weithredu drwy gydol y prosiect hwn oedd canolbwyntio ar y tribiwnlysoedd presennol, a'r strwythurau cyffredinol sy'n eu rheoli. Roeddem o'r farn bod adolygu maes cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a ffurfio barn ynghylch a oes angen tribiwnlysoedd neu ddulliau apelio ychwanegol yn faterion y tu allan i gwmpas y prosiect. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar wneud cynigion dros dro a fydd yn gwella gweithrediadau'r tribiwnlysoedd presennol, a chreu strwythur cadarn a hyblyg yr un pryd a fydd yn gallu datblygu dros amser.

### Cwestiynau a chroesgyfeiriadau at y papur ymgynghori llawn

1.6 Mae'r crynodeb hwn yn darparu rhywfaint o'r cefndir i bob un o'n cynigion dros dro a'r cwestiynau sydd yn y Papur Ymgynghori. Ar gyfer y cynigion dros dro, rydym yn gofyn a ydych yn cytuno; ar gyfer y cwestiynau mwy penagored, rydym yn gofyn am eich barn. Wrth drafod cefndir y cwestiynau, rydym yn rhoi rhif y cwestiwn dan sylw rhwng cromfachau. Mae rhestr o'r cwestiynau eu hunain ar ddiwedd y crynodeb (a hefyd ym Mhennod 11 o'r Papur Ymgynghori).

1.7 Yn y crynodeb hwn, rydym wedi ceisio cynnwys cyn lleied â phosib o gyfeiriadau. Os bydd ymgyngoreion am wybod rhagor, gofynnir iddynt droi at y Papur Ymgynghori llawn. Mae'r Papur Ymgynghori hwnnw hefyd yn cynnwys atodiad sy'n rhoi manylion yr holl dribiwnlysoedd datganoledig a drafodir yn y papur (Atodiad 1).

### Y camau nesaf

1.8 Yn 2021 rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad terfynol a fydd yn tynnu ar yr ymatebion i'n Papur Ymgynghori a byddwn yn gwneud argymhellion terfynol. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Senedd.

## PENNOD 2: TRIBIWNLYSOEDD YNG NGHYMRU: CYMHWYSEDD DATGANOLEDIG A THRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

2.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar ddau gwestiwn cydgysylltiedig: y fframwaith datganoledig sy'n ffurfio cyd-destun y prosiect hwn, a sut rydym wedi mynd ati i bennu'r tribiwnlysoedd sydd o fewn cwmpas yr adolygiad.

### Y fframwaith datganoledig

2.2 Ar hyn o bryd, mae datganoli yng Nghymru yn gweithredu ar sail model "cadw pwerau". Ystyr hynny yw bod y Senedd yn gallu deddfu ar unrhyw bwnc, ar yr amod nad yw wedi'i "gadw'n ôl" i Senedd y DU. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu'r materion hynny a gedwir yn ôl.

2.3 Y pwynt cyntaf i'w nodi am y fframwaith datganoledig ar gyfer y prosiect hwn yw bod "tribiwnlysoedd" yn fater a gedwir yn ôl i Senedd y DU gan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae "tribiwnlysoedd datganoledig" yn eithriad, felly gall y Senedd ddeddfu yng nghyswllt y tribiwnlysoedd hynny. Mae tribiwnlys yn "ddatganoledig" os yw ei swyddogaethau'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig, ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

2.4 Felly mae'r rhan fwyaf o'n cynigion dros dro yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ond mae rhai eithriadau; mewn nifer o feysydd, mae'n

debygol y bydd gofyniad i gael cydsyniad gan swyddogion y DU, neu ymgynghori â nhw, cyn y bydd y Senedd yn gallu gwneud newidiadau. Er enghraifft, nid yw swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn "awdurdod Cymreig datganoledig", o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Cymru 2006, felly ni all y Senedd roi neu osod pwerau i'r Llywydd heb gael cydsyniad gan y Gweinidog priodol.

### Beth yw tribiwnlys datganoledig?

2.5 Ein barn dros dro yw mai tribiwnlysoedd sy'n gyson â'r diffiniad o dribiwnlys datganoledig yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a ddylai fod yn destun i'n hadolygiad. Mae'r diffiniad hwnnw'n sicr yn cynnwys y "tribiwnlysoedd Cymreig" a restrir gan adran 59(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyfan o rhain yn cael eu llywyddu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'u gweinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Er mwyn osgoi dryswch, rydym yn eu galw'n "dribiwnlysoedd adran 59" yn y crynodeb hwn. Y tribiwnlysoedd hynny yw:

(1) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru;

(2) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;

(3) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru;

(4) Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sydd i'w ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru);

(5) Y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin;

(6) Panel Dyfarnu Cymru; a

(7) Tribiwnlys y Gymraeg.

2.6 Heblaw'r rhain, mae nifer o wahanol gyrff penderfynu yng Nghymru a allai ddod o fewn y diffiniad o "dribiwnlys datganoledig". Er bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi diffiniad o dribiwnlys "datganoledig", nid yw'n rhoi diffiniad o dribiwnlys fel y cyfryw.

2.7 Yn ein Papur Ymgynghori rydym yn egluro y bydd unrhyw ddiffiniad o dribiwnlys yn dibynnu ar y cyd-destun perthnasol. I'n dibenion ni, rydym yn dod i'r casgliad dros dro mai un o nodweddion tribiwnlysoedd yw eu bod yn gyrff sy'n dyfarnu ar anghydfodau, drwy wneud penderfyniadau rhwymol. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a ydynt yn cytuno â'r casgliad hwnnw (Cwestiwn ymgynghori 1). Rydym hefyd yn edrych ar gasgliad o nodweddion eraill sydd yn aml, ond nid bob amser, yn nodweddiadol o dribiwnlysoedd: annibyniaeth a diduedrwydd, hygyrchedd, cyflymder penderfynu, a gwybodaeth arbenigol y penderfynwyr.

2.8 Ym Mhennod 2 rydym yn cymhwyso'r meini prawf hyn at nifer o wahanol gyrff yng Nghymru. Rydym yn dod i'r casgliad dros dro y dylai ein hadolygiad gynnwys, yn ogystal â'r tribiwnlysoedd a restrir uchod, Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, ac yn gofyn i ymgyngoreion a ydynt yn cytuno (Cwestiwn ymgynghori 2). Rydym hefyd yn rhestru'r cyrff y credwn na ddylid eu

cynnwys yn yr adolygiad, ac yn gofyn i ymgyngoreion a ydynt yn cytuno â'r penderfyniad hwnnw (Cwestiwn ymgynghori 3).

## PENNOD 3: SYSTEM DRIBIWNLYSOEDD I GYMRU

3.1 Mae'r bennod hon yn ystyried pa ffurf a ddylai fod ar system dribiwnlysoedd i Gymru. Mae'n disgrifio anfanteision y dull presennol o greu tribiwnlysoedd i lunwyr polisi yng Nghymru. Ar hyn o bryd, os oes angen llwybr apêl newydd at dribiwnlys yng Nghymru, y dewis cyntaf yw ceisio dod o hyd i dribiwnlys sy'n gwrando achosion tebyg, neu sydd ag arbenigedd perthnasol ymysg eu haelodau panel. Os nad yw tribiwnlys addas yn bodoli eisoes, yna un ai y mae'n rhaid sefydlu tribiwnlys newydd, neu gellir cyfeirio apêl yn lle hynny i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf a sefydlwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

3.2 Mae sefydlu tribiwnlys newydd yn broses hir a drud, ac mae'n anodd rhag-weld nifer yr achosion y bydd yn eu gwrando. Mae hefyd yn broses anhyblyg; sefydlir tribiwnlysoedd drwy ddeddfwriaeth sylfaenol fel ei bod yn anodd ychwanegu rhai newydd wrth i'r galw newid. Mae dull *ad hoc* o greu tribiwnlysoedd newydd yn golygu bod gwahaniaethau'n codi o ran gweithdrefnau a rheolau, gan ddod â mwy o anghysondeb i'r system dribiwnlysoedd yn gyffredinol. Un ateb ymarferol yw anfon apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, ond mae hyn yn creu'r perygl o ddarnio system y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru a'i hatal rhag tyfu.

3.3 Nid yng Nghymru'n unig y ceir problemau o'r fath. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r broblem o sut i reoli'r broses o greu tribiwnlysoedd a llwybrau apêl newydd yng nghyd-destun tribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yn adroddiad Syr Andrew Leggatt, a gyhoeddwyd yn 2001. Roedd yr adroddiad hwnnw wedi arwain yn y pen draw at greu Tribiwnlys yr Haen Gyntaf gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007: disodlodd nifer o dribiwnlysoedd drwy sefydlu tribiwnlys sengl wedi'i rannu'n siambrau i ddelio â gwahanol bynciau. Dilynwyd llwybr tebyg ers hynny yn Neddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a sefydlodd Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban.

### Manteision ac anfanteision cyfuno

3.4 Mae'r manteision o ddod â thribiwnlysoedd presennol ynghyd mewn strwythur unedig yn cynnwys y canlynol.

(1) Arbedion maint. Byddai rhannu adnoddau'n gallu arwain at arbedion, a rhoi'r gallu i gynnig gwasanaethau mwy arbenigol a soffistigedig i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

(2) Cydlyniant. Mae sefydlu un strwythur unedig yn lle casgliad o dribiwnlysoedd yn ffordd i greu strwythur sy'n fwy cydlynol ac yn haws i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ddelio ag ef.

(3) Proffil cyhoeddus. Drwy ddod â thribiwnlysoedd ynghyd, gellir codi proffil cyhoeddus tribiwnlys unedig.

3.5 Er hynny, ychydig o ymchwil empeiraidd a gafwyd i ddangos y manteision tybiedig hyn. Ac mae anfanteision posib. Wrth ddod â'r tribiwnlysoedd ynghyd, mae perygl o

golli arbenigedd aelodau panel ym mhob tribiwnlys, ac arferion a gweithdrefnau neilltuol sy'n gweithio'n dda i dribiwnlysoedd penodol. Dywedwyd bod hyn yn cynyddu rôl cyfreithwyr yn y tribiwnlysoedd (gan mai cyfreithwyr yw'r elfen gyffredin yn holl nodweddion y tribiwnlysoedd, yn wahanol i arbenigwyr mewn addysg, neu iechyd meddwl, neu brisio tir). Byddai dod â thribiwnlysoedd ynghyd mewn un strwythur unedig yn gallu galw am ymdrech sylweddol a chreu cryn ddryswch mewn rhai tribiwnlysoedd, dim ond i gynnal y gweithrediadau presennol.

3.6 Yn y bennod rydym yn pwyso a mesur y dadleuon hyn. Ar ôl asesu'r manteision ac anfanteision, ein cynnig dros dro yw y dylid sefydlu, yn lle'r tribiwnlysoedd presennol, dribiwnlys haen gyntaf wedi'i rannu'n siambrau er mwyn cadw'r arbenigedd presennol, a elwir yn Dribiwnlys Haen – gyntaf Cymru. Byddai strwythur o'r fath yn caniatáu i'r tribiwnlys datganoledig dyfu yn ôl y galw am ei wasanaethau.

3.7 Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a ydynt yn cytuno (Cwestiwn ymgynghori 4). Rydym hefyd yn cynnig dros dro y gallai Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i rannu'r tribiwnlys yn siambrau, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (Cwestiwn ymgynghori 5).

### Tribiwnlys Prisio Cymru

3.8 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn gwrando achosion sy'n ymwneud â'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Mae'n rhestru mwy o achosion o lawer na'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill; yn 2019-2020 rhestrodd 4,183 o achosion ardrethi, 687 o achosion prisio'r dreth gyngor a 118 o apeliadau o fathau eraill. Nid yw'r tribiwnlys wedi'i restru yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, felly nid yw'n rhan o gylch gwaith Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae hefyd yn anarferol am ei fod yn gyfrifol am ei weinyddiaeth ei hun, ac mae ganddo Brif Weithredwr yn ogystal â Llywydd. Mae'r tribiwnlys hefyd yn wahanol o ran ei ffordd o weithredu i dribiwnlysoedd a restrir yn adran 59, a'i baneli'n cynnwys aelodau lleyg di-dâl sy'n cael eu cynghori gan glerc arbenigol (yn debyg i'r ffordd y mae ynadon lleyg yn cael eu cynghori gan glerc).

3.9 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei gynnwys yn y system o dribiwnlysoedd datganoledig (Cwestiwn ymgynghori 6).

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

3.10 Mae paneli apelio derbyniadau ysgolion yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan awdurdodau derbyn: awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu sydd wedi gwneud penderfyniadau ynghylch a gynigir lle i ddisgybl mewn ysgol neu beidio. Mae paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn gwrando apeliadau gan ddisgyblion a gafodd eu gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r paneli'n anarferol ymhlith y tribiwnlysoedd datganoledig am eu bod yn cael eu gweinyddu'n lleol ac nid yn ganolog. Yn ymarferol, mae'n beth cyffredin i'r paneli gael eu rhedeg gyda'i gilydd, o dan yr enw cyffredinol "panel apelio annibynnol".

3.11 Cafwyd beirniadu ar y paneli ar sail canfyddiad o ddiffyg annibyniaeth, am eu bod yn cael eu gweinyddu gan y corff a wnaeth y penderfyniad sy'n cael ei herio. Roedd y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn arfer cael eu trefnu fel hyn ond, dros amser, penderfynwyd bod annibyniaeth farnwrol yn galw am eu gweinyddu ar wahân. Er hynny, mae nifer o fanteision ynglŷn â threfnu'r paneli'n lleol. Mae'n caniatáu creu paneli sy'n arbenigo ar gyflwr addysg mewn ardal benodol. Mae hefyd yn hwyluso'r

gallu i wrando achosion yn lleol, gan arbed amser a chostau teithio i ddefnyddwyr y panel.

3.12 Rydym wedi ystyried a oes mantais mewn cynnwys paneli apelio derbyniadau ysgolion yn y system dribiwnlysoedd unedig. Ein barn dros dro yw bod y swm mawr o waith tymhorol (gwrandewir y rhan fwyaf o achosion yn y gwanwyn, ar gyfer derbyn i ysgolion yn yr hydref) a'r terfynau amser tynn yn awgrymu, am y tro o leiaf, fod manteision mewn dull gweithredu rhanbarthol. Mae dull gweithredu o'r fath hefyd yn caniatáu dethol aelodau panel sydd â phrofiad o'r ddarpariaeth addysg mewn ardal leol.

3.13 Nid yw'r dadleuon hyn mor gryf o'u cymhwyso at apeliadau yn erbyn gwahardd. Gwrandewir y rhain drwy gydol y flwyddyn, ac mae llai ohonynt. Byddai caniatáu eu gwrando gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sydd i'w ailenwi'n Dribiwnlys Addysg) yn cynnig dull mwy cyson o wrando'r achosion hyn. Byddai hefyd yn golygu bod hawl apelio gan ddefnyddwyr a fyddai'n llai drud, yn llai ffurfiol ac yn llai gwrthwynebol nag adolygiad barnwrol. Rydym yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaeth paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael ei chyfuno ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Cwestiwn ymgynghori 7), tra dylid cadw paneli apelio derbyniadau ysgolion ar wahân am y tro (Cwestiwn ymgynghori 8).

## Ad-drefnu posib ar awdurdodaethau o fewn tribiwnlys unedig

3.14 Rydym hefyd yn trafod pa siambrau a allai fod yn rhan o Dribiwnlys Haen - gyntaf Cymru. Nid ydym yn credu ei bod yn bosib gwneud argymhellion cynhwysfawr ar hyn o bryd o ran ad-drefnu awdurdodaethau; bydd hynny'n dibynnu ar y posibilrwydd o gyflwyno tribiwnlysoedd neu lwybrau apêl newydd, ymysg ffactorau eraill. Ond rydym yn gwneud rhai cynigion dros dro ynghylch tribiwnlysoedd penodol.


3.15 Nid yw'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion na'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin wedi gwrando unrhyw achos ers blynyddoedd lawer, ac nid oes ganddynt arweinydd barnwrol. Rydym yn cynnig dros dro y dylent gael eu cynnwys yn Nhribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Cwestiwn ymgynghori 9).

3.16 Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn anarferol am ei fod wedi'i ffurfio o dri thribiwnlys gwahanol ond cysylltiedig: tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti. Mae gan bob un o'r rhain ei reolau gweithdrefnol ei hun. Rydym yn cynnig dros dro y dylai Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru gael ei gyfuno'n ffurfiol (Cwestiwn ymgynghori 10).

3.17 Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch creu siambr rheoleiddio cyffredinol. Gallai siambr o'r fath fod yn gyrchfan addas ar gyfer unrhyw lwybrau apêl newydd, er enghraifft, lle nad yw'n glir beth fydd nifer yr apeliadau. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a ddylai siambr rheoleiddio cyffredinol fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru ac, os dylai, pa dribiwnlysoedd presennol a ddylai fod yn rhan o'r siambr honno (Cwestiwn ymgynghori 12).

3.18 Yn ogystal â hynny, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ellid cyfuno Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i greu siambr eiddo (Cwestiwn

ymgynghori 11). Yn olaf, gofynnwn i ymgyngoreion a oes unrhyw rai o'r tribiwnlysoedd datganoledig presennol eraill a ddylai gael eu cyfuno i ffurfio un siambr (Cwestiwn ymgynghori 13). Mae'r diagram isod yn dangos ffurf bosib y tribiwnlys unedig newydd.



## PENNOD 4: APELIADAU

4.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried cwestiwn yr apeliadau ymlaen o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Ar hyn o bryd, gwneir y rhan fwyaf o apeliadau o'r tribiwnlysoedd datganoledig i'r Uwch Dribiwnlys a sefydlwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, gan adlewyrchu'r llwybr apêl o'r tribiwnlysoedd cyfatebol yn Lloegr. Hyd yn hyn, Tribiwnlys y Gymraeg yw'r unig dribiwnlys a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth Gymreig ac, yn ei achos ef, penderfynwyd cyfeirio apeliadau i'r Uchel Lys. Mae apeliadau o Banel Dyfarnu Cymru hefyd yn mynd i'r Uchel Lys (boed hynny drwy apêl statudol neu drwy adolygiad barnwrol). Mae angen cael caniatâd i gyflwyno rhai apeliadau i'r Uchel Lys. Yn achos paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, nid oes llwybr apêl confensiynol o gwbl.

4.2 Byddai cyfuno'r tribiwnlysoedd datganoledig presennol yng Nghymru mewn un strwythur yn gwneud yr anghysonderau hyn yn fwy amlwg. Mae'r bennod hon yn trafod a ddylid rhesymoli'r llwybrau apêl presennol ac, os dylid, sut.

### Yr Uwch Dribiwnlys

4.3 Un o'r prif argymhellion a wnaed gan adroddiad Syr Andrew Leggatt yn dilyn ei adolygiad o dribiwnlysoedd oedd y dylid cael "single route of appeals for all tribunals". Roedd ei argymhellion wedi arwain at greu'r Uwch Dribiwnlys gan Ddeddf 2007. Yn yr un modd â Thribiwnlys yr Haen Gyntaf, mae wedi'i rannu'n siambrau. Mae hawl apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wneir gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf heblaw penderfyniad a eithrir. Gellir rhoi caniatâd i apelio un ai gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf neu gan yr Uwch Dribiwnlys.

### Apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig

4.4 Nid oes llawer o achosion yn cael eu hapelio o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae tabl ym mhennod 4 o'r Papur Ymgynghori yn dangos, ar gyfer 2019/2020, fod y tribiwnlysoedd adran 59 wedi cael 23 o geisiadau am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys ac, o'r rhain, fod 21 wedi'u gwrthod, un wedi'i ganiatáu a bod un penderfyniad yn yr arfaeth; gwnaed wyth cais am ganiatâd i'r Uwch Dribiwnlys ac, o'r rhain, roedd chwech wedi'u gwrthod, un wedi'i ganiatáu ac roedd un penderfyniad yn yr arfaeth.

4.5 Nid oes angen cael caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Prisio Cymru. Yn y flwyddyn 2019/2020 cafwyd dwy apêl statudol i'r Uchel Lys, ac un cais am ganiatâd i ofyn am adolygiad barnwrol gan un apelydd. Gwrthodwyd y cais am ganiatâd i ofyn am adolygiad barnwrol. Apeliwyd i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn un penderfyniad ar ardrethi.

### Opsiynau ar gyfer diwygio

4.6 Rydym wedi canfod pedwar opsiwn posib ar gyfer diwygio llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig.

(1) Dim newid sylweddol.

(2) Cyfeirio apeliadau i'r Llys Gweinyddol yng Nghymru.

(3) Cyfeirio apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys.

(4) Creu tribiwnlys apeliadol newydd: Tribiwnlys Apêl i Gymru.

4.7 Nid yr opsiynau hyn yw'r unig rai sydd ar gael o reidrwydd ac nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd.

## Dim newid sylweddol

4.8 Un posibilrwydd yw gadael rhai neu'r cyfan o'r llwybrau apêl presennol fel y maent. Byddai hyn yn cadw system sy'n gweithio'n weddol dda i bob golwg ar gyfer y tribiwnlysoedd presennol. Mewn sgyrsiau â'r arweinwyr barnwrol sy'n ben ar y tribiwnlysoedd adran 59, cafwyd bod nifer ohonynt yn fodlon ar eu llwybrau apêl. Lle'r oedd apeliadau'n mynd i'r Uwch Dribiwnlys, rhai o'r manteision a nodwyd oedd yr arbenigedd sydd ar gael am fod barnwyr yn gwrando nifer sylweddol o apeliadau ar faterion penodol, a datblygu cyson ar y gyfraith ledled Cymru a Lloegr. Canmolwyd yr Uchel Lys am allu technegol a hyblygrwydd ei farnwyr.

4.9 Un anfantais o adael llwybrau apêl heb eu newid yw y byddent yn parhau'n anghyson. Mae perygl bod yr anghysondeb hwn yn gwneud pethau'n fwy cymhleth i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, sy'n gorfod sicrhau eu bod yn dilyn y llwybr apêl cywir ac yn wynebu gwahanol lefelau o gost a ffurfioldeb. Gallai hyn ddod yn fwy dyrys byth i ddefnyddwyr os mabwysiedir ein hawgrym ar gyfer tribiwnlys cyfunol sy'n cynnal gwrandawiadau cyntaf.

4.10 Ni fyddai'n fawr o gymorth ychwaith i ddatblygu awdurdodaethau newydd yn y dyfodol. Er mwyn atal y broblem hon, gallai fod yn ddymunol pennu opsiwn “diofyn” ar gyfer tribiwnlysoedd newydd, i'w fabwysiadu gan lunwyr polisi os nad oes rhesymau da dros ffafrio opsiwn arall.

## Y Llys Gweinyddol yng Nghymru

4.11 Posibiliad arall yw cyfeirio'r holl apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig i'r Llys Gweinyddol yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn golygu unrhyw newid i Banel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlys y Gymraeg neu mewn apeliadau ar y dreth gyngor o Dribiwnlys Prisio Cymru. Fodd bynnag, fe fyddai'n golygu newid yr holl lwybrau apêl eraill o'r tribiwnlysoedd datganoledig.

4.12 Er y byddai hyn yn creu cysondeb, mae nifer o anfanteision. Byddai'n tynnu apeliadau o'r system dribiwnlysoedd, fel y collir manteision y system honno: rheolau gweithdrefnol syml, gwybodaeth arbenigol y panel, a pheidio â chodi ffioedd (neu godi ffioedd isel) ar ddefnyddwyr.

4.13 Gellid ystyried hyn yn gam yn ôl. Cyn pasio Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, er enghraifft, nid oedd llwybr apêl o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Roedd ceiswyr yn gorfod gofyn am adolygiad barnwrol yn lle hynny. Daeth Adroddiad Leggatt i'r casgliad nad oedd hyn yn foddhaol o ystyried bod y tribiwnlysoedd hyn yn delio ag achosion cymhleth a sensitif.

### Yr Uwch Dribiwnlys

4.14 Opsiwn arall ar gyfer cysoni'r llwybrau apêl fyddai symud yr holl apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys. Byddai hyn yn cadw'r rhan fwyaf o'r llwybrau apêl presennol. Byddai'n dod â'r manteision canlynol:

(1) Byddai apeliadau'n cael eu gwrando, fel y maent nawr, gan farnwyr sydd â chryn arbenigedd yn y pynciau.

(2) Mae nifer o awdurdodaethau wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth debyg iawn. Drwy gadw penderfyniadau gyda'i gilydd yng Nghymru a Lloegr ar y lefel apelio, sicrheir bod y gyfraith yn datblygu'n gyson. Mae hyn yn ddymunol iawn ym maes iechyd meddwl, gan fod defnyddwyr tribiwnlysoedd yn gallu symud rhwng Cymru a Lloegr yn ôl lle maent yn cael eu cadw.

(3) Parheir i wrando apeliadau o fewn y system dribiwnlysoedd, gan ddod â manteision i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd o ran hygyrchedd.

4.15 Un anfantais yw y byddai hynny'n mynd yn groes i'r datganoli cynyddol o ran y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'n bosib y bydd dadleuon (1) a (2) yn llai cryf yn y dyfodol, wrth i'r gwahaniaethau gynyddu rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr.

### Tribiwnlys Apêl i Gymru

4.16 Opsiwn mwy mentrus ar gyfer diwygio fyddai creu corff apeliadol newydd, Tribiwnlys Apêl i Gymru. Gan y byddai ei lwyth achosion yn debygol o fod yn fach ar y dechrau, gellid cymryd y byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn penodi aelodau ag amrywiaeth o brofiad a gafwyd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, yn ôl gofynion yr achos dan sylw. Un ateb posib fyddai trawsleoli neu benodi barnwyr presennol yr Uchel Lys, neu aelodau'r Uwch Dribiwnlys. Byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn gallu arwain y Tribiwnlys Apêl a gwrando achosion priodol.

4.17 Mae rhai o fanteision o greu corff apeliadol newydd yn cynnwys:

(1) Cysondeb. Gellid gwrando'r holl apeliadau o'r tribiwnlysoedd datganoledig mewn un lle. Byddai hyn yn ei dro yn gwneud y system yn haws ei defnyddio gan ddefnyddwyr tribiwnlysoedd a chynghorwyr.

(2) Cydlyniant â'r strwythur rydym yn ei gynnig ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig. Byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn mynd law yn llaw â'n cynnig dros dro ar gyfer tribiwnlys cyfunol i Gymru sy'n cynnal gwrandawiadau cyntaf.

(3) Datblygu cyfraith achosion. Ar gyfer yr awdurdodaethau hynny sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth ddatganoledig ac sy'n neilltuol i Gymru, byddai cael un Tribiwnlys Apêl i Gymru yn gallu helpu i ddatblygu cyfraith achosion gyson a chydlynol ar y lefel apeliadol.

(4) Proffil cyhoeddus. Byddai cael un Tribiwnlys Apêl i Gymru yn rhoi lle mwy amlwg i benderfyniadau tribiwnlysoedd ar y lefel apeliadol.

(5) Ymatebolrwydd. Byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn eistedd yng Nghymru a byddai'n ymatebol i anghenion tribiwnlysoedd Cymru (ar yr amod, wrth gwrs,

fod adnoddau ar gael i sefydlu tribiwnlys newydd, a bod barnwyr arbenigol ar gael, yn enwedig os yw'r rhan fwyaf o'u gwaith yn yr Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys).

4.18 Er hynny, mae rhai anfanteision. Yr anfantais fwyaf yw na fydd digon o achosion o bosib i'w gwneud yn fuddiol sefydlu corff newydd. Os nad oes digon o achosion, nid yw'r buddion o ddatblygu cyfraith achosion gyson yn debygol o gael eu gwireddu.

4.19 Am fod y materion hyn yn rhai dyrys, rydym yn gofyn am farn gan ymgyngoreion ynghylch a ddylai'r llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig fod yn unffurf (Cwestiwn ymgynghori 14). Rydym hefyd yn gofyn, os mabwysiedir llwybr apêl unffurf, a ddylai hwnnw fynd i'r Uwch Dribiwnlys, y Llys Gweinyddol yng Nghymru, neu Dribiwnlys Apêl i Gymru a greir o'r newydd (Cwestiwn ymgynghori 15). Os na fabwysiedir llwybr apêl sengl, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid pennu un llwybr apêl diofyn, er hynny; pa lwybr y dylid ei bennu; pa dribiwnlysoedd y dylai'r apeliadau ohonynt gael eu gwrando drwy'r llwybr apêl diofyn hwnnw; ac a fyddai modd ychwanegu tribiwnlysoedd yn raddol at y llwybr apêl diofyn (Cwestiwn ymgynghori 16).

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

4.20 Mae paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn anarferol i'r graddau nad oes llwybr apêl penodedig ar eu cyfer. Yn lle hynny, rhaid i geiswyr wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu i Weinidogion Cymru, neu geisio adolygiad barnwrol. Ein barn dros dro yw bod hyn yn anfoddhaol. Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru na Gweinidogion Cymru yn gallu ystyried rhinweddau penderfyniad penodol, ac mae adolygiad barnwrol yn broses ddrud, anhygyrch ac araf.

4.21 Ein cynnig dros dro ar gyfer paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yw y dylid eu cyfuno â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Os bydd hynny'n digwydd, byddai ceiswyr yn dilyn yr un llwybr apêl â'r tribiwnlys hwnnw sef, ar hyn o bryd, i'r Uwch Dribiwnlys. Ond byddai paneli apelio derbyniadau ysgolion heb lwybr apêl penodedig o hyd.

4.22 Yn ddelfrydol, byddai llwybr apêl o'r fath yn cynnig arbenigedd yn ogystal â gweithdrefn hygyrch. Byddai angen iddo allu penderfynu ar geisiadau'n gyflym, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu derbyn lle mewn ysgol ac na tharfir ar eu haddysg. Rydym yn amau bod yr anghenion hyn yn golygu na fyddai llwybr apêl i'r Uchel Lys yn un addas. Mae'r anghenion hyn hefyd yn mynd yn groes i'r syniad o greu llwybr apêl i'r Uwch Dribiwnlys.

4.23 Os mai'r ateb a ddewisir ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn gyffredinol yw creu Tribiwnlys Apêl i Gymru, yna gallai hynny fod yn ateb yn yr achos hwn. Fel arall, rydym wedi dod i'r farn dros dro bod creu hawl i apelio o baneli apelio derbyniadau ysgolion i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn un ateb posib. Mae ganddo brofiad ymarferol o ysgolion ac addysg, ac mae wedi arfer ag eistedd yn lleol. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfeirio apeliadau o baneli apelio derbyniadau ysgolion i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch y seiliau y dylai ceiswyr allu apelio arnynt (Cwestiwn ymgynghori 17) ac a ddylai apeliadau a gyfeirir ymlaen o Dribiwnlys

Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy’n ymwneud â phenderfyniadau paneli apelio derbyniadau ysgolion fod yn gyfyngedig i achosion sy’n codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu achosion lle mae rheswm cryf arall dros wrando’r apêl (Cwestiwn ymgynghori 18).

### Tribiwnlys Prisio Cymru

4.24 Ar hyn o bryd, gwneir apeliadau o Dribiwnlys Prisio Cymru un ai i’r Uchel Lys, ar bwynt cyfreithiol (yn achos apeliadau ar y dreth gyngor) neu i’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd), ar gyfer apeliadau ar ardrethi annomestig. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael un llwybr apêl o Dribiwnlys Prisio Cymru ac, os dylid, pa lwybr apêl y dylid ei bennu (Cwestiwn ymgynghori 19).

### Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

4.25 Fel yr eglurwyd uchod, mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn cynnwys tri math o dribiwnlys mewn gwirionedd; mae pwyllgorau asesu rhenti yn wahanol i’r lleill am mai dim ond i’r Uwch Dribiwnlys y gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a ddylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti ddod o dan yr un rheolau ar ganiatâd i apelio â’r rheini ar gyfer y tribiwnlysoedd eraill sy’n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (Cwestiwn ymgynghori 20).

## PENNOD 5: RHEOLAU GWEITHDREFNOL

5.1 Mae’r rheolau gweithdrefnol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn rhai anghyson, cymhleth a hen ffasiwn. Mae rhai ohonynt yn dyddio o’r 1970au a heb eu bwriadu ar gyfer Cymru nac ar gyfer arferion tribiwnlysoedd modern. Mae hyn yn peri problem i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, sy’n ei chael yn anodd deall y rheolau. Mae hefyd yn broblem i aelodau tribiwnlysoedd sydd heb bwerau modern ar gyfer rheoli achosion, fel bod terfyn ar eu gallu i ymateb er mwyn llywio’r achosion sy’n dod o’u blaen. Gellir cael apeliadau diangen hefyd oherwydd diffyg eglurder yn y rheolau.

5.2 Mae’r bennod hon yn edrych ar rai o’r problemau cyffredin o ran y rheolau, sy’n dangos y diffygion a ddisgrifiwyd uchod. Er nad yw’r gwaith manwl o ddrafftio rheolau tribiwnlysoedd yn dod o fewn cwmpas y prosiect hwn, rydym yn gwneud nifer bach o gynigion dros dro ynghylch nodweddion penodol y gellid eu cael mewn rheolau diwygiedig.

5.3 Rydym hefyd yn gofyn cwestiynau pwysig am strwythurau. Yn gyntaf, pwy a ddylai fod yn gyfrifol am wneud rheolau tribiwnlysoedd? Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn chwarae rhan fawr mewn gwneud y rheolau, ac ychydig o fewnbwn a geir gan farnwyr. Yn ail, sut y gallwn sicrhau bod y rheolau, ar ôl eu diwygio, yn parhau i gael eu cynnal a’u bod yn ymateb i newidiadau yn anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd?

### Sut y gwneir rheolau gweithdrefnol?

5.4 Ac eithrio Tribiwnlys y Gymraeg a Phanel Dyfarnu Cymru (sydd â rheolau a wneir gan eu Llywyddion, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Weinidogion), Gweinidogion Cymru sy’n gwneud y rheolau gweithdrefnol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae pŵer

hefyd gan Weinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer ar dderbyn i ysgolion a chanllawiau ar gyfer gwahardd o ysgolion.

### Problemau cyffredin ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig

5.5 Mae'r rheolau gweithdrefnol ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig yn anghyson, heb reswm amlwg yn aml dros yr anghysondeb hwnnw heblaw damweiniau hanesyddol a threfniadau datganoli sy'n fwyfwy cymhleth. Mae cysylltiad rhwng y ddau fater hyn; mae anghysondeb wedi codi mewn llawer achos am nad yw setiau rheolau wedi'u diweddaru ers cryn amser. Rydym yn trafod enghreifftiau penodol isod.

#### Y prif amcan

5.6 Mae "prif amcan" wedi'i nodi yn rheolau gweithdrefnol rhai, ond nid y cyfan, o'r tribiwnlysoedd datganoledig; gofyniad am ddelio ag apeliadau a hawliadau mewn ffordd "deg a chyfiawn" (mae'r union eiriad a'r manylder yn amrywio rhwng tribiwnlysoedd). Mae hyn yn enghraifft o ddull mwy modern o wneud rheolau gweithdrefnol; yn lle darparu gofynion penodol, mae'r rheolau'n datgan egwyddor i fod yn ganllaw wrth arfer disgresiwn. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys prif amcan yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig (Cwestiwn ymgynghori 21). Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cynnwys rhestr o enghreifftiau gyda'r prif amcan sy'n egluro ffyrdd i gydymffurfio ag ef (Cwestiwn ymgynghori 22).

#### Dyletswyddau i gydweithredu a chynorthwyo'r tribiwnlys

5.7 Yn rheolau gweithdrefnol y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd, ond nid y cyfan ohonynt, ceir dyletswydd i gydweithredu â'r tribiwnlys a'i gynorthwyo. Nid oes gofyniad o'r fath yn rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, er bod cyfarwyddyd ymarfer mwy diweddar yn cynnwys gofyniad bod unrhyw berson sy'n darparu tystiolaeth i'r tribiwnlys yn helpu'r tribiwnlys i gyflawni'r prif amcan. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd a'r tribiwnlys yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig, lle y bo'n briodol (Cwestiwn ymgynghori 23). Rydym yn gofyn a yw dyletswydd o'r fath yn briodol yn achos Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

#### Cyflwyno dogfennau

5.8 Mae'r rheolau ar gyflwyno dogfennau yn anghyson ac wedi dyddio mewn rhai achosion. Yn benodol, maent yn amrywio o ran caniatáu anfon dogfennau drwy ddull electronig. Yn ein barn ni, mae'r pandemig COVID-19 a'r duedd gyffredinol at gynnal gwrandawiadau o bell wedi dangos pa mor bwysig yw diweddaru'r rheolau a gallu cyflwyno dogfennau drwy ddull electronig. Rydym yn cynnig dros dro y dylid darparu yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig (Cwestiwn ymgynghori 24).

#### Pŵer i adolygu penderfyniadau

5.9 Mae pŵer gan nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig i adolygu eu penderfyniadau ar sail benodedig, un ai ar gais gan barti neu ar eu menter eu hunain. Gall hyn fod yn ddefnyddiol o ran gadael i dribiwnlys gywiro gwallau amlwg. Fodd bynnag, nid oes rheolau o'r fath gan yr holl dribiwnlysoedd a rhoddwyd gwybod i ni fod hyn yn gallu arwain at apeliadau diangen mewn achosion lle byddai'r tribiwnlys wedi gallu cywiro gwall amlwg yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na'r Uwch Dribiwnlys . Rydym yn cynnig

dros dro y dylai tribiwnlysoedd datganoledig gael pŵer i adolygu eu penderfyniadau (Cwestiwn ymgynghori 25).

### Gwrandawiadau o bell

5.10 Mae'r pandemig COVID-19 wedi tarfu'n sylweddol ar wrandawiadau yn y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru wedi gweithio'n galed i sicrhau bod modd symud gwrandawiadau ar-lein, gan gytuno â GLITEM y gallai'r tribiwnlysoedd adran 59 ddefnyddio'r Cloud Video Platform a ddefnyddir yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU.

5.11 Nid yw'r Papur Ymgynghori yn ceisio gwerthuso'r defnydd o wrandawiadau o bell. Mae iddynt fanteision ac anfanteision, ac mae'r rhain yn destun ymchwil gan gyrff eraill ar hyn o bryd. Ni fydd gwrandawiadau o bell yn addas ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig.

5.12 Er nad ydynt yn addas ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig, rydym yn credu bod gwrandawiadau o bell yn un o'r offer defnyddiol sydd gan y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'n debygol y bydd awydd am barhau i ddefnyddio'r dechnoleg ar gyfer rhai gwrandawiadau hyd yn oed ar ôl i'r pandemig COVID-19 fynd heibio. Rydyn ni'n canolbwyntio ar y ffordd y mae'r rheolau gweithdrefnol presennol yn darparu (neu beidio) ar gyfer gwrandawiadau o bell. Yn yr un modd â meysydd eraill yn y bennod hon, mae'r rheolau'n anghyson ar hyn o bryd, ac weithiau'n fud, ynghylch a ganiateir gwrandawiadau o bell. Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni'r rheolau ar wrandawiadau o bell (Cwestiwn ymgynghori 26).

### Safoni rheolau gweithdrefnol eraill y tribiwnlysoedd

5.13 Byddai safoni'r rheolau gweithdrefnol yn dileu rhai o'r anghysonderau sydd wedi'u crybwyll uchod. Ni fyddai'n briodol ym mhob maes; rhaid i'r rheolau gweithdrefnol adlewyrchu'r gwahanol anghenion yn awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd. Ond mewn meysydd cyffredinol yn y rheolau fel cyflwyno dogfennau, gellid mabwysiadu dull safonol.

5.14 Rhai o'r manteision fyddai bod rheolau'n haws eu deall gan ddefnyddwyr (ar ôl adolygu'r rheolau, gellid mabwysiadu'r geiriad mwyaf clir) a'u bod yn syml i staff gweinyddol a barnwyr a drosglwyddir rhwng tribiwnlysoedd (ni fyddai barnwyr yn gorfod ymgynefino â set hollol newydd o reolau gweithdrefnol wrth symud i awdurdodaeth newydd).

5.15 Y perygl mwyaf yw safoni gormodol; rhoi blaenoriaeth i gysondeb ar draul rheolau sy'n wahanol am reswm da, am eu bod yn adlewyrchu anghenion tribiwnlysoedd penodol a'u defnyddwyr. Anfantais arall yw'r perygl o gyflwyno gwahaniaethau rhwng rheolau tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf. Mae nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn cymhwyso'r un gyfraith hawliau â siambrau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf. Byddai'n peri penbleth i ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd iechyd meddwl yn benodol os oedd y rheolau gweithdrefnol yn amrywio yn ôl a oedd y claf yn cael ei gadw yng Nghymru neu yn Lloegr.

5.16 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig, lle y bo'n briodol (Cwestiwn ymgynghori 27). Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes enghreifftiau o wahaniaethau annymunol rhwng rheolau

tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau gweithdrefnol cyfatebol yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf, a sut y gellid rheoli'r risg o gael gwahaniaethau (Cwestiwn ymgynghori 28).

### Cyfuno i wneud un set o reolau

5.17 Rydym hefyd yn ystyried yn y bennod hon a ddylid cyfuno'r rheolau i'r tribiwnlysoedd datganoledig; hynny yw, eu cynnwys mewn un set o reolau gweithdrefnol. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r defnyddiwr ddod o hyd i'r set berthnasol o reolau gweithdrefnol. Yr anfantais yw y byddai cynnwys gwahaniaethau ar gyfer pob tribiwnlys mewn un set o reolau yn arwain at ddrafftio cymhleth gydag eithriadau ac atodiadau. Rydym yn cynnig dros dro y dylid parhau â set o reolau ar wahân ar gyfer pob tribiwnlys neu siambr (Cwestiwn ymgynghori 29). Er hynny, rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno tair set rheolau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (Cwestiwn ymgynghori 30).

### Gwneud a chynnal y rheolau gweithdrefnol

5.18 Yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl, gwneir rheolau gweithdrefnol gan y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd a sefydlwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Rydym yn gweld budd mewn sefydlu pwyllgor tebyg ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Byddai hyn yn rhoi'r gallu i adolygu'r rheolau'n rheolaidd, fel na fyddant yn dyddio. Gellid gwneud gwelliannau i'r rheolau yr un pryd ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd, i atal anghysonderau rhag codi rhyngddynt. Byddai pwyllgor yn gallu cyfrannu hefyd at fonitro gwahaniaethau rhwng rheolau gweithdrefnol yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl a'r tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn cynnig dros dro y dylid sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru (Cwestiwn ymgynghori 31).

5.19 Yn ein barn ni, y dewis naturiol ar gyfer person i gadeirio'r pwyllgor a phenodi ei aelodau fyddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru ac am benodi ei aelodau (Cwestiwn ymgynghori 32). Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei arwain wrth arfer ei allu i benodi aelodau gan ffactorau a nodwyd mewn deddfwriaeth, yn cynnwys yr angen i amrywiaeth o arbenigedd fod ar gael i'r pwyllgor (Cwestiwn ymgynghori 33).

5.20 Unwaith y bydd Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd wedi cytuno ar newidiadau yn y rheolau, sut y dylid gwneud y newidiadau hynny? Yn ein barn ni, yr opsiynau sydd ar gael yw bod y rheolau'n cael eu gwneud gan fwyafrif o'r pwyllgor (fel yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl), neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn y naill achos neu'r llall, rydym yn rhag-weld y bydd y pŵer yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru (Cwestiwn ymgynghori 34).

## PENNOD 6: PENODIADAU

6.1 Mae penodiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig yn allweddol o ran dangos i'r cyhoedd fod y tribiwnlysoedd yn annibynnol a diduedd. Dylai'r gweithdrefnau a ddefnyddir fod yn rhai teg, agored ac wedi'u seilio ar deilyngdod. Mae'r system bresennol yn cyrraedd y safonau hynny. Er hynny, mae'r cyfrifoldebau dros benodi'n anghyson, yn bennaf oherwydd datblygiad digyswllt y tribiwnlysoedd. Mae rheolau diweddarach yn

adlewyrchu'r cynnydd ar ddatganoli, yn wahanol i weithdrefnau a ddatblygwyd yn gynharach.

### Penodiadau o fewn y tribiwnlysoedd Cymreig datganoledig

6.2 Yn gyffredinol, mae'r swyddogaethau penodi yn y tribiwnlysoedd adran 59 wedi'u rhannu rhwng yr Arglwydd Ganghellor ar y naill law, a Gweinidogion Cymru ar y llall. Gan mwyaf, yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi arweinwyr barnwrol, tra bydd Gweinidogion Cymru yn gyfrifol gan amlaf am benodi aelodau. Mae'r rhan fwyaf o brosesau penodi'r tribiwnlysoedd yn gwahaniaethu rhwng aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg, ac mae'r Arglwydd Ganghellor yn fwy tebygol o fod yn gyfrifol am benodi'r cyntaf.

6.3 Tribiwnlys y Gymraeg yw'r tribiwnlys a grëwyd yn fwyaf diweddar. Gwneir yr holl benodiadau iddo gan Weinidogion Cymru. Cyflwynwyd mesurau ychwanegol i ddiogelu'r ffordd o wneud y penodiadau hyn. Wrth benodi, mae'n ofynnol o dan y rheoliadau fod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i'r angen i gynnal egwyddorion annibyniaeth y tribiwnlys a rheolaeth y gyfraith.

6.4 Mae prosesau gwahanol gan dribiwnlysoedd eraill. Etholir Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru a thri chynrychiolydd cenedlaethol gan aelodau'r tribiwnlys. Penodir aelodau eraill y tribiwnlys a'r cadeiryddion gan banel o aelodau a chynrychiolwyr cenedlaethol.

6.5 Mae paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn dilyn patrwm tebyg. Yn achos paneli apelio derbyniadau, yr awdurdod derbyn sy'n penodi. Yr awdurdod lleol yw hwn fel arfer, ond mewn ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol. Mae'n bosib gwneud trefniadau ar y cyd rhwng cyrff llywodraethu a'r awdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol yn penodi aelodau i baneli apelio gwaharddiadau hefyd. Yn ymarferol, bydd nifer o awdurdodau lleol yn penodi "panel apelio annibynnol" i wrando apeliadau derbyn a gwahardd.

6.6 Am nad yw'r paneli hyn yn cael eu gweinyddu'n ganolog, mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth gywir am weithrediad y paneli. Rydym yn gofyn am dystiolaeth gan ymgyngoreion ynghylch y ffordd y mae'r paneli hyn yn gweithio, a'r graddau y mae awdurdodau lleol yn cydweithio.

### Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

6.7 Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (y "CPB") yn gorff statudol annibynnol a grëwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Mae'n dethol ymgeiswyr ar gyfer eu penodi i lysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac i rai tribiwnlysoedd sydd ag awdurdodaeth sy'n cwmpasu'r DU. Mae'r ymgeiswyr a ddetholir yn cael eu penodi fel arfer. Mae'n rhedeg prosesau dethol ar gyfer y tribiwnlysoedd adran 59.

### Diwygio penodiadau yng Nghymru

6.8 Ein barn dros dro yw y dylai'r un awdurdodau fod yn gyfrifol am benodi i'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'r sefyllfa gymysg bresennol yn ganlyniad i ddatblygiadau hanesyddol, yn hytrach nag unrhyw ddewis polisi sy'n adlewyrchu gwahaniaethau rhwng y tribiwnlysoedd. Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r un awdurdod (neu awdurdodau) penodi wneud penodiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig (Cwestiwn ymgynghori 35).

6.9 Mae'n ymddangos i ni fod nifer o awdurdodau penodi posib, gan gynnwys y canlynol:

(1) yr Arglwydd Ganghellor;

(2) Gweinidogion Cymru; a

(3) Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

6.10 Mae nifer o egwyddorion sylfaenol yn berthnasol wrth benderfynu pwy a ddylai wneud penodiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

(1) Annibyniaeth. Mae wedi'i hen gydnabod na ddylai'r adrannau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau apeliadwy fod â rhan yn y broses benodi ar gyfer tribiwnlysoedd sy'n adolygu'r penderfyniadau hynny. Un ffordd i gynyddu annibyniaeth yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi o ddwylo'r weithrediaeth i ddwylo'r farnwriaeth.

(2) Statws uchel. Egwyddor arall sy'n berthnasol yw statws yr awdurdod penodi. Drwy gynnwys ffigwr pwysig mewn penodiadau gan lywodraeth, amlygir pwysigrwydd y swydd ei hun. Mae hyn yn helpu i egluro pam y mae Gweinidogion Cymru a'r Arglwydd Ganghellor yn rhannu'r cyfrifoldebau hyn ar hyn o bryd.

(3) Y gallu i asesu ymgeiswyr. Egwyddor bellach yw y dylai'r awdurdod penodi fod mewn lle da i allu asesu rhinweddau'r argymhelliad a wnaed gan yr awdurdod dethol. Dyma pam mai'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd sy'n gyfrifol bellach am benodi i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.

6.11 Rydym yn cynnig dros dro y dylai aelodau'r tribiwnlysoedd adran 59 gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru (Cwestiwn ymgynghori 36). Mae'r Llywydd yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd ag anghenion tribiwnlysoedd penodol nag y mae Gweinidogion Cymru, ac ymgynghorir ag ef eisoes ynghylch penodi aelodau cyfreithiol panel cleifion dan gyfyngiadau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'n eglur hefyd fod y Llywydd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

6.12 Rydym yn cynnig dros dro y dylai arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd adran 59 gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (Cwestiwn ymgynghori 37). Mae hynny'n bodloni'r maen prawf "statws uchel" a ddisgrifiwyd uchod, ond yn ei gydbwyso hefyd â'r arbenigedd ac annibyniaeth farnwrol sy'n rhan hanfodol o swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

6.13 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid penodi Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru a'i aelodau a'i gadeiryddion (Cwestiynau ymgynghori 38 a 39).

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

6.14 Rydym yn cynnig ym Mhennod 3 y dylid trosglwyddo swyddogaethau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC"). Pe byddai hynny'n digwydd, byddai penodiadau'n cael eu rheoli gan y gweithdrefnau penodi ar gyfer TAAAC.

6.15 Fodd bynnag, byddai hynny'n gadael y penodi i baneli apelio derbyniadau ysgolion yn nwylo'r awdurdod penodi. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr awdurdod lleol yw hwnnw ond, ar gyfer rhai mathau o ysgolion, y corff llywodraethu yn yr ysgol gysylltiedig sy'n gyfrifol. Byddai symud y cyfrifoldeb hwn i le arall yn cynyddu'r canfyddiad o annibyniaeth y paneli hyn, ond nid yw'n glir pa mor hawdd fyddai gwneud hyn o ran ymarfer. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac, os cedwir nhw, paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru (Cwestiwn ymgynghori 40).

### Rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

6.16 Mae mantais bendant o gael un corff yn dilyn prosesau dethol safonol ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig. Mae cysondeb yn neilltuol o bwysig gan fod trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd yn galluogi aelodau o dribiwnlysoedd adran 59 i eistedd mewn tribiwnlysoedd adran 59 eraill, ac yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf. Drwy ddefnyddio'r CPB, sicrheir bod pob penodai yn cael ei asesu at yr un safon gan yr un corff.

6.17 Cawsom awgrymiadau y byddai'n fuddiol i Gymru gael ei chorff penodiadau ei hun, yn dilyn yr enghreifftiau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Fodd bynnag, am fod nifer y penodiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig yn gymharol fach, rydym wedi dod i'r casgliad dros dro nad oes cyfiawnhad ar hyn o bryd dros lefel y buddsoddi a'r ymdrech weinyddol y byddai eu hangen i sefydlu corff penodiadau ar wahân i Gymru. Rydym yn cynnig dros dro na ddylid newid trefniadau dethol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer penodi i'r tribiwnlysoedd adran 59 yn rhan o'n diwygiadau (Cwestiwn ymgynghori 41).

6.18 Mae cwestiwn yn codi ynghylch a ellid neu a ddylid ehangu rôl y CPB i gynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Fe fyddai hyn yn sicrhau bod proses gyson a thrwyadl ar waith ar gyfer penodi i'r tribiwnlysoedd hynny. Ond mae'n bosib bod proses drwyadl y CPB yn rhy gymhleth ar gyfer penodiadau i'r tribiwnlysoedd hyn sy'n dibynnu ar barodrwydd gwirfoddolwyr di-dâl. Rydym yn gofyn am farn ynghylch pwy a ddylai fod yn gyfrifol am ddethol Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru (Cwestiwn ymgynghori 42) ac aelodau a chadeiryddion y tribiwnlys hwnnw (Cwestiwn ymgynghori 43). Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau o baneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion (Cwestiwn ymgynghori 44).

## PENNOD 7: CWYNION A DISGYBLAETH

7.1 Mae'r fframwaith statudol ar gyfer cwyno am ymddygiad aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig yn un cymhleth ac anghyson ac nid yw'n hygyrch i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Mae'n ymddangos bod hyn yn ganlyniad i nifer o ffactorau cydgysylltiedig: datblygiad *ad hoc* y tribiwnlysoedd, y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a diwygiadau cyfansoddiadol diweddarach o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Cafwyd y datblygiadau hyn wrth i'r setliad datganoli ehangu, gan ychwanegu haen o gymhlethdod.

7.2 Mae'n ymddangos i ni fod fframwaith tryloyw a chyson ar gyfer cwynion a disgyblaeth farnwrol yn nodwedd ddymunol mewn system ddiwygiedig o dribiwnlysoedd

datganoledig. Mae'r ymagwedd at ddisgyblu, yn benodol, yn codi cwestiynau o ran gwahanu, oddi wrth lywodraeth (na ddylai allu "cosbi" barnwyr am benderfyniadau nad yw'n eu hoffi) ac oddi wrth farnwyr eraill (a allai gael eu gweld yn rhy gydymdeimladol tuag at gyd-farnwyr).

7.3 Ar ddechrau'r bennod hon, rydym yn disgrifio'r fframwaith statudol ar gyfer y DU gyfan sy'n rheoli cwynion. Mae'r fframwaith hwnnw'n gymwys hefyd i nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Ar ôl disgrifio sefyllfa'r tribiwnlysoedd datganoledig, rydym yn trafod ein cynigion ar gyfer diwygio.

### Pwerau cwynion a disgyblu yn system dribiwnlysoedd y DU

7.4 Mae Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 yn cynnwys rhestr o ddeiliaid swyddi barnwrol a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Rhaid i gwynion am ddeiliad y swyddi hynny gael eu gwneud i'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol ("y SYYB"), y corff sy'n cynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus i gyflawni eu cyfrifoldeb ar y cyd dros ddisgyblaeth farnwrol. Fodd bynnag, mae un eithriad i'r rheol hon.

7.5 Rhaid i gwynion am "aelodau tribiwnlys" (sydd wedi'u rhestru yn Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014) gael eu gwneud i'r "Llywydd perthnasol". Mae rhestr o aelodau tribiwnlys a Llywyddion perthnasol mewn atodlen i Reolau 2014. Mae Rheolau 2014 yn disgrifio'r broses sydd i'w dilyn gan y Llywydd perthnasol. Mae'r SYYB yn dilyn gweithdrefnau tebyg.

#### Pwerau disgyblu a diswyddo

7.6 Mae'r Arglwydd Ganghellor ac (yng Nghymru a Lloegr) yr Arglwydd Brif Ustus yn gydgyfrifol am ddiswyddo a disgyblu'r deiliaid swyddi barnwrol a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Gall yr Arglwydd Ganghellor ddiswyddo person ar yr amod bod y gweithdrefnau rhagnodedig wedi'u dilyn. Mae'r Arglwydd Brif Ustus, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor, yn gallu cynnig cyngor ffurfiol, neu rybudd neu gerydd ysgrifenedig ffurfiol. Mae'r Arglwydd Brif Ustus hefyd yn gallu atal person o'i swydd os yw achos troseddol wedi'i ddwyn yn ei erbyn neu os cafwyd ef yn euog o drosedd.

### Prosesau cwynion o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru

7.7 Un pwynt i'w nodi yw mai ychydig iawn o gwynion a gaiff y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Yn 2017/2018 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae data cyflawn ar gael ar ei chyfer), cafwyd pum cwyn am Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ac un bob un am Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a Thribiwnlys Prisio Cymru.

7.8 Mae'r fframwaith ar gyfer y DU a ddisgrifiwyd uchod yn gymwys i rai o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae rhai o aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig wedi'u rhestru'n "aelodau tribiwnlys" yn Rheolau 2014. Rhaid mynd â chwynion am ymddygiad panel cadeirydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a phaneli o ddirprwy gadeiryddion, ffermwyr a pherchnogion tir amaethyddol yn Nhribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru at y Llywydd perthnasol. Gwneir cwynion am aelodau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru i'r "barnwr cyswllt"; fodd bynnag, rydym yn deall nad yw barnwr cyswllt wedi'i benodi.

7.9 Mae rhai aelodau eraill o'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru sydd heb eu rhestru'n "aelodau tribiwnlys" yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014, ond sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 yn "ddeiliaid swydd". Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, aelodau o bwyllgorau asesu rhenti yng Nghymru a rhai arweinwyr barnwrol. Felly rhaid gwneud cwynion am y deiliaid swydd hyn i'r SYYB.

7.10 Mae hyn yn gadael nifer o aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig heb eu rhestru'n "aelodau tribiwnlys" nac yn "ddeiliaid swydd". Mae'r rhain yn cynnwys arweinwyr barnwrol ac aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru, yn ogystal ag aelodau paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

7.11 Nid oes prosesau cwynion ar gyfer pob un o'r tribiwnlysoedd hyn. Er enghraifft, nid oes gweithdrefn ar hyn o bryd ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau o Dribiwnlys Prisio Cymru (o'u cyferbynnu â chwynion am weinyddu). Rydym yn cynnig dros dro y dylai unigolion allu gwneud cwynion am ymddygiad aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cwestiwn ymgynghori 48).

7.12 Mae'r sefyllfa o ran cwynion yn erbyn aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn un gymhleth. Nid oes gweithdrefn benodol ar gyfer cwynion, ond fe all defnyddwyr gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu i Weinidogion Cymru. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen polisi cwynion ar gyfer paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion, yn ychwanegol i'r rôl a gyflawnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd (Cwestiwn ymgynghori 47).

7.13 Lle mae polisïau cwynion wedi'u gwneud, nid yw'r rhain ar gael yn rhwydd bob amser. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael polisi cwynion safonol sy'n gymwys i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig (Cwestiwn ymgynghori 45). Dylai'r polisi hwnnw fod ar gael ar-lein a hefyd ar ffurf copi caled drwy wneud cais (Cwestiwn ymgynghori 46).

### Proses disgyblu

7.14 Yn ogystal â mabwysiadu polisi cwynion unffurf, rydym hefyd yn cynnig dros dro y dylai'r broses o ymchwilio i gwynion fod yn unffurf yn yr holl dribiwnlysoedd datganoledig, yn cynnwys y broses sy'n ymwneud â chwynion am weinyddiaeth y tribiwnlysoedd (Cwestiwn ymgynghori 49) a chwynion am ymddygiad aelodau (Cwestiwn ymgynghori 50).

7.15 Rydym wedi dod i'r farn dros dro y dylid cael cysondeb o ran (a) y prosesau disgyblu sy'n gymwys i aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig a (b) pwy sy'n arfer y pŵer i ddisgyblu ac, yn y pen draw, i ddiswyddo aelodau ac arweinwyr barnwrol. O ran prosesau disgyblu, ein barn ragarweiniol yw bod Rheolau 2014 yn cynnig model defnyddiol y gellid ei fabwysiadu'n arfer unffurf gan yr holl dribiwnlysoedd datganoledig.

7.16 Rydym yn cynnig dros dro mai'r arweinydd barnwrol perthnasol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig (Cwestiwn ymgynghori 51). Dylai'r broses o ymchwilio i gwynion am arweinwyr barnwrol gael ei threfnu gan y SYYB, neu gan gorff cyfatebol (Cwestiwn ymgynghori 52). Rydym yn gwneud cynigion

tebyg yn ymwneud â Thribiwnlys Prisio Cymru (Cwestiynau ymgynghori 54 a 55). Rydym yn gofyn am farn ynghylch pwy a allai ymchwilio i gwynion a wneir am ymddygiad aelodau o baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion (Cwestiwn ymgynghori 53).

### Pwerau disgyblu

7.17 Mae'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn arfer pwerau disgyblu dros aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw'r rhestr honno'n gyflawn. Mae pwerau disgyblu o ran Tribiwnlys Prisio Cymru a Thribiwnlys y Gymraeg wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru yn y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r tribiwnlysoedd hynny. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa mor glir yn achos tribiwnlysoedd eraill. Yn benodol, nid ydym wedi gallu canfod pwerau sy'n rhoi caniatâd yn benodol i ddiswyddo aelodau neu Lywyddion Panel Dyfarnu Cymru neu aelodau o baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

7.18 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau'r tribiwnlysoedd adran 59 (Cwestiwn ymgynghori 56) ac aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cwestiwn ymgynghori 57). Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion (Cwestiwn ymgynghori 58).

7.19 Ein barn ragarweiniol yw na ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn llwyr gyfrifol am arfer pwerau disgyblu dros arweinwyr barnwrol. Hyd yn oed o gael cymorth gan banel disgyblu (fel y mae Rheolau 2014 yn darparu), mae'n debygol bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cydweithio'n rhy agos ag arweinwyr barnwrol o ddydd i ddydd i fod ar bellter priodol i fod yn llwyr gyfrifol am eu diswyddo. Yn lle hynny, rydym yn cynnig dros dro na ddylai arweinwyr barnwrol gael eu diswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru heblaw gyda chytundeb Gweinidogion Cymru (Cwestiwn ymgynghori 59). Rydym yn gwneud cynnig dros dro tebyg yng nghyd – destun Tribiwnlys Prisio Cymru (Cwestiwn ymgynghori 60).

7.20 Un o hanfodion rheolaeth y gyfraith yw na ellir disgyblu barnwyr ar sail wleidyddol. Bydd unrhyw ran a gymerir gan Weinidogion Cymru yn codi pryderon ynghylch amddiffyn annibyniaeth y farnwriaeth. Rydym wedi dod i'r farn dros dro y gellir mynd i'r afael a hyn drwy gyfyngu'r pŵer i un ar gyfer cydsynio â phenderfyniad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac y byddai'r pryderon yn cael eu lleddfu ymhellach drwy osod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i barchu annibyniaeth farnwrol (trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 10). Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen cysylltu unrhyw amddiffyniadau pellach â'r arfer ar bwerau disgyblu er mwyn gwarchod annibyniaeth y farnwriaeth (Cwestiwn ymgynghori 61).

## PENNOD 8: LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

8.1 Crëwyd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gan Ddeddf Cymru 2017. Syr Wyn Williams (Mr Ustus Wyn Williams, barnwr Uchel Lys, cynt) yw'r cyntaf i'w benodi i'r rôl. Mae'r arweinyddiaeth hon wedi cael effaith sylweddol ar dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru; cawsant arweinydd a hunaniaeth gyffredin.

8.2 Byddai'r cynigion dros dro sydd yn y Papur Ymgynghori yn creu tribiwnlys unedig i gymryd lle'r tribiwnlysoedd unigol presennol. Byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth lywio tribiwnlysoedd drwy'r diwygiad hwn. Yn ogystal â hyn, byddai ein cynigion dros dro ar benodiadau a disgyblaeth (Penodau 6 a 7) a strwythur Uned Tribiwnlysoedd Cymru (Pennod 9) yn ehangu rôl y Llywydd. Mae'r bennod hon yn trafod y rôl yn fwy manwl.

### Cyfrifoldebau presennol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

8.3 Mae dau gyfrifoldeb gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r cyntaf yn "fewnol". Mae adran 60(5)(a) o Ddeddf Cymru 2017 yn gwneud y Llywydd yn gyfrifol am:

> The maintenance of appropriate arrangements for the training, guidance and welfare of members of the Welsh tribunals within the resources made available by the Welsh Ministers.

8.4 Mae'r ail gyfrifoldeb yn un allanol, sef cyfleu barn aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig i Weinidogion Cymru ac aelodau eraill o'r Senedd. Gwneir hyn fel arfer drwy gyfarfodydd blynyddol â'r Prif Weinidog ac adroddiad blynyddol, a gyflwynir i'r Prif Weinidog a Llywydd y Senedd. Mae'r Llywydd hefyd wedi rhoi tystiolaeth lafar yn ddiweddar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd.

8.5 Nid oes cyfeiriad penodol yn Neddf Cymru 2017 at rôl farnwrol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Er hynny, mae'r Llywydd wedi mynegi'r farn yn y gorffennol "fod gan y Llywydd, fel uwch farnwr, hawl i eistedd fel cadeirydd cyfreithiol pob un o Dribiwnlysoedd Cymru", er na ddylai wneud hynny oni bai fod Llywydd ac arweinydd barnwrol y tribiwnlys wedi cytuno y byddai'n amhriodol i'r arweinydd barnwrol eistedd mewn achos penodol.

### Diwygiadau posib

8.6 Er mai'n gymharol ddiweddar y crëwyd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, cafwyd galwadau am ei diwygio gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas") a chan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ei hun.

8.7 Mae'r Llywydd wedi dadlau o blaid ffurfio "rôl farnwrol benodol" ar gyfer y swydd. Ein barn dros dro yw y byddai hyn yn ddatblygiad gwerthfawr a fyddai'n helpu i sicrhau bod y Llywydd yn parhau i gael dealltwriaeth o waith y tribiwnlysoedd o ddydd i ddydd. Felly rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr yn y tribiwnlys neu dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn llywyddu arnynt (Cwestiwn ymgynghori 62).

8.8 Rydym hefyd yn ystyried a ddylid ehangu cylch gwaith y Llywydd yn bellach na'r tribiwnlysoedd adran 59. Mae Comisiwn Thomas wedi awgrymu ehangu'r rôl i gynnwys cyrff eraill a sefydlir o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru.

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion a Thribiwnlys Prisio Cymru

8.9 Rydym yn ystyried a ddylid ehangu cylch gwaith y Llywydd o ran paneli apelio derbyniadau ysgolion ac, os cedwir nhw, paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

8.10 Mae anawsterau'n codi wrth ystyried sut byddai rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn ffitio i system bresennol y paneli apelio derbyniadau ysgolion. Am nad yw'r paneli'n cael eu rhedeg yn ganolog, nid oes ffigwr amlwg yn y strwythur presennol a allai gyfleu buddiannau'r paneli i'r Llywydd, yn y ffordd y mae'r arweinwyr barnwrol presennol yn gwneud ar hyn o bryd. Er mwyn i'r Llywydd gyfathrebu'n effeithiol â'r paneli, mae'n bosib y byddai angen cytuno ar gynrychiolwyr rhanbarthol i gydgysylltu â'r Llywydd.

8.11 Pe byddai modd datrys yr anawsterau hynny, gellid cael nifer o fanteision drwy ehangu rôl y Llywydd. Gellid ymestyn cyfrifoldeb presennol y Llywydd dros hyfforddi aelodau tribiwnlys i gynnwys y paneli, gan sicrhau cysondeb. Hefyd byddai elfennau mwy allanol y rôl (cyfleu buddiannau'r tribiwnlysoedd i'r Senedd a Gweinidogion Cymru) yn gallu rhoi llais unedig i'r paneli.

8.12 Yn olaf, byddai'r rhan a gymerir gan y Llywydd yn gallu helpu i gynyddu annibyniaeth y paneli. Ar hyn o bryd, mae penodi a gweinyddu'n gyfrifoldeb i'r awdurdod penodi (mewn rhai achosion, bwrdd llywodraethu ysgol benodol), fel nad oes gan y paneli annibyniaeth strwythurol debyg i dribiwnlysoedd eraill. Byddai goruchwyliaeth y Llywydd dros baneli apelio yn eu hamddiffyn rhag cael eu gweld yn agored i effaith pwysau gan awdurdodau lleol. Felly rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru (Cwestiwn ymgynghori 63).

8.13 Rydym hefyd yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio Tribiwnlys Prisio Cymru (Cwestiwn ymgynghori 64).

## PENNOD 9: UNED TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

9.1 Uned Tribiwnlysoedd Cymru yw'r rhan o Lywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r tribiwnlysoedd adran 59. Yn wahanol i gyrff eraill sy'n gweinyddu tribiwnlysoedd yn y DU, nid yw'n strwythurol annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi peri i rai ofyn a yw'n ddigon annibynnol. Mae'r bennod hon yn ystyried modelau eraill a fabwysiadwyd yn y DU ar gyfer gweinyddu tribiwnlysoedd, ac yn gwneud cynnig dros dro.

### Model yr asiantaeth weithredol: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon

9.2 Mae asiantaethau gweithredol yn unedau mewn adran lywodraeth ganolog sy'n cael eu gweinyddu ar wahân, ond yn aros yn rhan o'r adran o dan y gyfraith. Mae Canllaw a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn egluro'r rheswm arferol dros eu sefydlu:

> to allow the delivery of executive functions of government to be carried out separately from – but within a policy and resources framework set by – a primarily policy-focussed department.

9.3 Fel arfer bydd asiantaethau gweithredol yn cael eu harwain gan Brif Weithredwr sy'n atebol i'r Gweinidog adrannol perthnasol am gyflawni swyddogaethau ac am weithgareddau o ddydd i ddydd. Mae staff asiantaethau gweithredol yn weision sifil. Mabwysiadwyd model yr asiantaeth weithredol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon.

### Model yr adran anweinidogol: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban

9.4 Crëwyd GLITA yn 2015, drwy gyfuno Gwasanaeth Llysoedd yr Alban a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yr Alban. Mae'n adran anweinidogol a sefydlwyd drwy statud fel ei fod yn endid cyfreithiol ar wahân i Lywodraeth yr Alban. Mae ganddo Fwrdd a Phrif Weithredwr.

9.5 Mae Bwrdd GLITA yn cynnwys aelodau barnwrol ac anfarnwrol. Yr aelodau barnwrol a godir o'r system dribiwnlysoedd yw Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, a Llywydd Siambr o Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban. Mae aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am arweinyddiaeth a chyfeiriad y sefydliad, ac am sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau ac amcanion a gytunwyd rhwng GLITA a Gweinidogion yr Alban.

### Diwygio Uned Tribiwnlysoedd Cymru

9.6 Rydym wedi dod i'r farn ragarweiniol y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael mwy o annibyniaeth strwythurol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Pa un a fyddai'n cael ei diwygio i'w gwneud yn asiantaeth weithredol neu'n adran anweinidogol, byddai diwygio o'r fath yn rhoi'r manteision canlynol.

(1) Byddai'n ymgorffori egwyddor annibyniaeth farnwrol yn y system, ac yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd fod y tribiwnlysoedd yn cael eu rhedeg ar ryw bellter oddi wrth y penderfyniadau y maent yn apelio yn eu herbyn.

(2) Byddai'n codi proffil cyhoeddus Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac yn gwneud ei gweithgareddau'n fwy tryloyw i'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, adroddir ar gyllideb Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ond ychydig iawn o gysylltiad sydd rhwng yr Uned a'r cyhoedd (er enghraifft, nid oes ganddi ei gwefan ei hun).

(3) Byddai'n gadael i'r farnwriaeth gymryd rhan mewn rhedeg Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Yn benodol, byddai'r naill fodel neu'r llall yn rhoi rôl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

9.7 Er ein bod yn credu y byddai'r naill fodel neu'r llall yn gallu cynnig y manteision hyn, rydym yn ffafrio model yr adran anweinidogol, gan ei fod yn rhoi mwy o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Felly rydym yn cynnig dros dro y dylid ad-drefnu Uned Tribiwnlysoedd Cymru i'w gwneud yn adran anweinidogol (Cwestiwn ymgynghori 65).

## PENNOD 10: ANNIBYNIAETH FARNWROL

10.1 Er mwyn cyflawni eu rôl, mae angen i farnwyr fod yn annibynnol ar lywodraeth ac ar ddylanwadau eraill. Mae hyn yn galluogi barnwyr i wneud penderfyniadau diduedd, sydd yn eu tro'n caniatáu i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ymddiried yn y system farnwrol.

10.2 Mae annibyniaeth farnwrol wedi'i chynnwys yn benodol yng nghylch gorchwyl y prosiect hwn. Mae'n neilltuol o berthnasol i nifer o bynciau a drafodir mewn penodau eraill: penodiadau a disgyblaeth (Penodau 6 a 7), a strwythur Uned Tribiwnlysoedd Cymru (Pennod 9).

## Sicrhau annibyniaeth drwy statud

10.3 Cyflwynwyd newidiadau sylweddol yn y system gyfreithiol yn y DU drwy Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Un o'r egwyddorion sy'n sail i'r newidiadau hyn yw y dylai'r farnwriaeth fod yn annibynnol. Mae adran 3(1) o'r Ddeddf yn darparu:

> The Lord Chancellor, other Ministers of the Crown and all with responsibility for matters relating to the judiciary or otherwise to the administration of justice must uphold the continued independence of the judiciary.

10.4 Mae adran 3(5) hefyd yn atal y Canghellor a Gweinidogion y Goron rhag ceisio dylanwadu ar "particular judicial decisions through any special access to the judiciary".

10.5 Pan basiwyd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, estynnwyd y sicrwydd i gynnwys llywyddion ac is-lywyddion siambr ac aelodau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Mae hefyd yn cynnwys Llywydd, Is-lywydd ac aelodau eraill Tribiwnlys Prisio Lloegr.

10.6 Fodd bynnag, nid yw'n cael ei gymhwyso'n gyson at y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Nid yw'n gymwys ond i'r aelodau hynny o'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Fel yr eglurir ym Mhenodau 6 a 7, nid yw'r rhestr hon yn gyflawn o ran y tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru fod o dan ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig (Cwestiwn ymgynghori 66).

## Y llw barnwrol

10.7 Mae'n ofynnol bod barnwyr yn y DU yn tyngu'r "llw barnwrol". Mewn gwirionedd, mae hwn yn cynnwys dau lw neu gadarnhad ar wahân: y llw gwrogaeth a'r llw barnwrol. Wrth dyngu'r llw, mae'r unigolyn yn dangos ei ymrwymiad i egwyddor penderfynu diduedd.

10.8 Ar ôl mabwysiadu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, mae'n ofynnol bod aelodau, barnwyr ac arweinwyr barnwrol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn tyngu'r llw barnwrol. Yn yr Alban, mae holl aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd yn cael eu hystyried yn rhan o'r farnwriaeth, felly mae hefyd yn ofynnol iddyn nhw dyngu'r llw.

10.9 Yng Nghymru, mae hefyd yn ofynnol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru dyngu'r llw barnwrol o flaen yr Arglwydd Brif Ustus. Ond ar hyn o bryd nid oes gofyniad statudol am dyngu'r llw gan arweinwyr barnwrol neu aelodau tribiwnlysoedd datganoledig (er ei bod yn bosib y bydd nifer ohonynt wedi gwneud hynny wrth gael eu penodi i swyddi barnwrol eraill). Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol bod holl arweinwyr barnwrol ac aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig (yn cynnwys aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill) yn tyngu'r llw barnwrol (Cwestiwn ymgynghori 67).

# Cwestiynau Ymgynghori

## PENNOD 2: TRIBIWNLYSOEDD YNG NGHYMRU : CYMHWYSEDD DATGANOLEDIG A THRIBIWNLYSOED DATGANOLEDIG

**Cwestiwn Ymgynghori 1.**

1.1 Ein barn dros dro yw y dylai cyrff penderfynu sy'n dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud dyfarniadau rhwymol gael eu dynodi'n "dribiwnlysoedd" i ddibenion y prosiect hwn.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 2.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 2.**

1.2 Rydym yn cynnig dros dro fod y cyrff canlynol yn dribiwnlysoedd datganoledig:

(1) Y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017;

(2) Tribiwnlys Prisio Cymru;

(3) paneli apelio derbyniadau ysgolion; a

(4) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 2.87**

**Cwestiwn Ymgynghori 3.**

1.3 Rydym yn cynnig dros dro nad yw'r cyrff penderfynu neu gynlluniau canlynol yn "dribiwnlysoedd datganoledig":

(1) ombwdsmyn, yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(2) Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr;

(3) paneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru;

(4) y gronfa cymorth dewisol i Gymru;

(5) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd;

(6) paneli adolygu gofal iechyd parhaus y GIG;

(7) Byrddau Canolwyr Meddygol o dan gynlluniau pensiwn ac iawndal diffoddwyr tân yng Nghymru;

(8) Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru;

(9) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghymru; a

(10) y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 2.88**

## PENNOD 3: SYSTEM DRIBIWNLYSOEDD I GYMRU

**Cwestiwn Ymgynghori 4.**

1.4 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r Tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 i ffurfio Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, wedi'i rannu'n siambrau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.89**

**Cwestiwn Ymgynghori 5.**

1.5 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ddarparu ar gyfer rhannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau, drwy is-ddeddfwriaeth a wneir ar ôl cael cydsyniad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.90**

**Cwestiwn Ymgynghori 6.**

1.6 Rydym yn cynnig dros dro yw y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.102**

**Cwestiwn Ymgynghori 7.**

1.7 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno awdurdodaeth y paneli apelio gwaharddiadau ysgolion ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.127**

**Cwestiwn Ymgynghori 8.**

1.8 Rydym yn cynnig dros dro na ddylai awdurdodaeth y paneli apelio derbyniadau ysgolion gael ei chyfuno, am y tro, ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.129**

**Cwestiwn Ymgynghori 9.**

1.9 Rydym yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaethau'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin gael eu cyfuno ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.138**

**Cwestiwn Ymgynghori 10.**

1.10 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti) i ffurfio un siambr.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.139**

**Cwestiwn Ymgynghori 11.**

1.11 Rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a ddylai Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gynnwys siambr rheoleiddio cyffredinol ac, os dylai

(2) pa dribiwnlysoedd presennol a ddylai fod yn rhan o'r siambr honno.

**Paragraff 3.140**

**Cwestiwn Ymgynghori 12.**

1.12 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i ffurfio siambr eiddo.

**Paragraff 3.141**

**Cwestiwn Ymgynghori 13.**

1.13 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno tribiwnlysoedd datganoledig presennol eraill i ffurfio un siambr.

**Paragraff 3.142**

## PENNOD 4: APELIADAU

**Cwestiwn Ymgynghori 14.**

1.14 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig fod yn unffurf.

**Paragraff 4.54**

**Cwestiwn Ymgynghori 15.**

1.15 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai llwybr apêl unffurf, os caiff ei fabwysiadu, fod yn un i:

(1) yr Uwch Dribiwnlys;

(2) y Llys Gweinyddol yng Nghymru; neu

(3) Tribiwnlys Apêl i Gymru a sefydlir o'r newydd.

**Paragraff 4.55**

**Cwestiwn Ymgynghori 16.**

1.16 Os na fabwysiedir llwybr apêl unffurf, rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a ddylid pennu un llwybr apêl diofyn, er hynny (ee ar gyfer tribiwnlysoedd sydd newydd eu creu);

(2) pa lwybr apêl diofyn y dylid ei bennu;

(3) pa dribiwnlysoedd y dylai'r apeliadau ohonynt gael eu gwrando drwy'r llwybr apêl diofyn hwnnw; a

(4) a fyddai modd ychwanegu tribiwnlysoedd yn raddol at y llwybr apêl diofyn.

**Paragraff 4.56**

**Cwestiwn Ymgynghori 17.**

1.17 Rydym yn gofyn am farn ynghylch

(1) a ddylid cyfeirio apeliadau o baneli apelio derbyniadau ysgolion i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru; a

(2) os dylid, ar ba seiliau y dylai ceiswyr allu apelio.

**Paragraff 4.64**

**Cwestiwn Ymgynghori 18.**

1.18 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai apeliadau a gyfeirir ymlaen o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy'n ymwneud â phenderfyniadau paneli apelio derbyniadau ysgolion fod yn gyfyngedig i achosion sy'n codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu achosion lle mae rheswm cryf arall dros wrando'r apêl.

**Paragraff 4.65**

**Cwestiwn Ymgynghori 19.**

1.19 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael un llwybr apêl o Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer apeliadau ar ardrethi a’r dreth gyngor ac, os dylid, pa lwybr apêl y dylid ei bennu.

**Paragraff 4.69**

**Cwestiwn Ymgynghori 20.**

1.20 Rydym yn cynnig dros dro y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti ddod o dan yr un rheolau ar ganiatâd i apelio â’r rheini ar gyfer y tribiwnlysoedd eraill sy’n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

Ydych chi’n cytuno?

**Paragraff 4.71**

## PENNOD 5: RHEOLAU GWEITHDREFNOL

**Cwestiwn Ymgynghori 21.**

1.21 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys prif amcan yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi’n cytuno?

**Paragraff 5.19**

**Cwestiwn Ymgynghori 22.**

1.22 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cynnwys rhestr o enghreifftiau esboniadol gyda phrif amcan newydd ac, os dylid, pa enghreifftiau y dylid eu cynnwys.

**Paragraff 5.20**

**Cwestiwn Ymgynghori 23.**

1.23 Rydym yn cynnig dros dro y dylai rheolau tribiwnlysoedd datganoledig gynnwys, lle y bo'n briodol, ddyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd a'r tribiwnlys.

Ydych chi'n cytuno?

1.24 A yw dyletswydd o'r fath yn briodol yn achos Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru?

**Paragraff 5.24**

**Cwestiwn Ymgynghori 24.**

1.25 Rydym yn cynnig dros dro y dylai rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig ddarparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.31**

**Cwestiwn Ymgynghori 25.**

1.26 Rydym yn cynnig dros dro y dylai tribiwnlysoedd datganoledig gael yr hawl i adolygu eu penderfyniadau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.36**

**Cwestiwn Ymgynghori 26.**

1.27 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni'r rheolau ar wrandawiadau o bell yn rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.51**

**Cwestiwn Ymgynghori 27.**

1.28 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig, lle y bo'n briodol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.68**

**Cwestiwn Ymgynghori 28.**

1.29 Rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a oes enghreifftiau o wahaniaethau annymunol rhwng rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf; a

(2) sut y gellid rheoli'r risg o wahaniaethau.

**Paragraff 5.69**

**Cwestiwn Ymgynghori 29.**

1.30 Rydym yn cynnig dros dro y dylid parhau â set o reolau ar wahân ar gyfer pob tribiwnlys neu siambr.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.82**

**Cwestiwn Ymgynghori 30.**

1.31 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno rheolau gweithdrefnol TEPC i wneud un set o reolau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 31.**

1.32 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.108**

**Cwestiwn Ymgynghori 32.**

1.33 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru ac am benodi ei aelodau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.109**

**Cwestiwn Ymgynghori 33.**

1.34 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei arwain wrth arfer ei allu i benodi aelodau Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru gan ffactorau sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, yn cynnwys yr angen i amrywiaeth o arbenigedd fod ar gael i'r Pwyllgor.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.110**

**Cwestiwn Ymgynghori 34.**

1.35 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai rheolau gael eu gwneud, ar ôl eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, gan fwyafrif o Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 5.111**

## PENNOD 6: PENODIADAU

**Cwestiwn Ymgynghori 35.**

1.36 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r un awdurdod (neu awdurdodau) penodi wneud penodiadau i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.52**

**Cwestiwn Ymgynghori 36.**

1.37 Rydym yn cynnig dros dro y dylai aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.68**

**Cwestiwn Ymgynghori 37.**

1.38 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywyddion ac Is-lywyddion y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.69**

**Cwestiwn Ymgynghori 38.**

1.39 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei benodi.

**Paragraff 6.74**

**Cwestiwn Ymgynghori 39.**

1.40 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylai aelodau a chadeiryddion Tribiwnlys Prisio Cymru gael eu penodi.

**Paragraff 6.75**

**Cwestiwn Ymgynghori 40.**

1.41 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac, os cedwir nhw, paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 6.80**

**Cwestiwn Ymgynghori 41.**

1.42 Rydym yn cynnig dros dro na ddylid newid trefniadau dethol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer penodi yn rhan o'n diwygiadau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 42.**

1.43 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

**Paragraff 6.92**

**Cwestiwn Ymgynghori 43.**

1.44 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru, yn cynnwys cadeiryddion.

**Paragraff 6.93**

**Cwestiwn Ymgynghori 44.**

1.45 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau o baneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

**Paragraff 6.94**

## PENNOD 7: CWYNION A DISGYBLAETH

**Cwestiwn Ymgynghori 45.**

1.46 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael polisïau a gweithdrefnau cwynion safonol sy'n gymwys i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 46.**

1.47 Rydym yn cynnig dros dro y dylid trefnu i'r polisïau cwynion fod ar gael ar-lein a hefyd ar ffurf copi caled drwy wneud cais.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.87**

**Cwestiwn Ymgynghori 47.**

1.48 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen polisi cwynion ar gyfer paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion, yn ychwanegol i'r rôl a gyflawnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd.

**Paragraff 7.88**

**Cwestiwn Ymgynghori 48.**

1.49 Rydym yn cynnig dros dro y dylid darparu ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.89**

**Cwestiwn Ymgynghori 49.**

1.50 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion ynghylch gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.99**

**Cwestiwn Ymgynghori 50.**

1.51 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.100**

**Cwestiwn Ymgynghori 51.**

1.52 Rydym yn cynnig dros dro mai'r arweinydd barnwrol perthnasol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.101**

**Cwestiwn Ymgynghori 52.**

1.53 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r broses o ymchwilio i gwynion am arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael ei threfnu gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, neu gan gorff cyfatebol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.102**

**Cwestiwn Ymgynghori 53.**

1.54 Rydym yn gofyn am farn ynghylch pwy a ddylai ymchwilio i gwynion a wneir am ymddygiad aelodau o baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

**Paragraff 7.108**

**Cwestiwn Ymgynghori 54.**

1.55 Rydym yn cynnig dros dro mai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru a ddylai ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau o'r tribiwnlys hwnnw.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.112**

**Cwestiwn Ymgynghori 55.**

1.56 Rydym yn cynnig dros dro mai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol neu gorff cyfatebol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.113**

**Cwestiwn Ymgynghori 56.**

1.57 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.125**

**Cwestiwn Ymgynghori 57.**

1.58 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.126**

**Cwestiwn Ymgynghori 58.**

1.59 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

**Paragraff 7.127**

**Cwestiwn Ymgynghori 59.**

1.60 Rydym yn cynnig dros dro y dylai arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu disgyblu a'u diswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.133**

**Cwestiwn Ymgynghori 60.**

1.61 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddisgyblu a'i ddiswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.134**

**Cwestiwn Ymgynghori 61.**

1.62 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen cysylltu unrhyw amddiffyniadau pellach â'r arfer ar bwerau disgyblu er mwyn gwarchod annibyniaeth y farnwriaeth.

**Paragraff 7.135**

## PENNOD 8: LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

**Cwestiwn Ymgynghori 62.**

1.63 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr yn y tribiwnlys neu dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn llywyddu arnynt.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 8.42**

**Cwestiwn Ymgynghori 63.**

1.64 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 8.53**

**Cwestiwn Ymgynghori 64.**

1.65 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 8.56**

## PENNOD 9: UNED TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

**Cwestiwn Ymgynghori 65.**

1.66 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael ei sefydlu'n adran anweinidogol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 9.76**

## PENNOD 10: ANNIBYNIAETH FARNWROL

**Cwestiwn Ymgynghori 66.**

1.67 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru fod o dan ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 10.18**

**Cwestiwn Ymgynghori 67.**

1.68 Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol bod holl arweinwyr barnwrol ac aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill y tribiwnlysoedd datganoledig yn tyngu'r llw barnwrol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 10.27**